# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

## Manylion y Grŵp Trawsbleidiol:

| | |
|---|---|
| Teitl y Grŵp Trawsbleidiol: | Masnachu pobl |
| **Aelodaeth y grŵp a deiliaid swyddi:** | |
| Enw Cadeirydd y Grŵp: | Joyce Watson AS |
| Enwau Aelodau eraill o'r Senedd: | Mike Hedges AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS |
| Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad: | BAWSO |
| Enwau'r aelodau allanol eraill a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli | • Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Gwyneth Millington, Cyngor ar Bopeth Conwy<br>• Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru<br>• Jordan Brewer, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Katie Davies<br>• Keli Davies<br>• Kimm Ann Williamson, Cydgysylltydd Cymru, Gwasanaeth Sifil Lleol<br>• Vivienne Laing, NSPCC<br>• Lydia SWA<br>• Michelle Pooley, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru<br>• Rakshanda Shahzad, BAWSO<br>• Rhian Connick, Sefydliad y Merched<br>• Sara Kirkpatrick, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Sara Thornton<br>• Simon Borja, Cymru Ddiogelach |

| | |
|---|---|
| | • Dora Szalkay<br>• Carol Wardman, Cynghorydd yr Esgobion ar gyfer yr Eglwys a Chymdeithas<br>• Y Cynghorydd Yvonne Jardine<br>• ***Alison*** Ussery, Hafan o Oleuni |

## Cyfarfodydd eraill y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

| Cyfarfod 1 | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 15.11.21 |
| Yn bresennol: | • Joyce Watson AS (JW)<br>• Mike Hedges AS (MH)<br>• Nitesh Patel (Staff Cymorth) (NP)<br>• Ryland Doyle (Staff Cymorth) (RD)<br>• Kimm Ann Williamson, Cydgysylltydd Cymru, Gwasanaeth Sifil Lleol (KAW)<br>• Rakshanda Shahzad, BAWSO (RS)<br>• Joshua Vulgar – Pennaeth Caethwasiaeth Fodern a Hawliau Gweithwyr (JV)<br>• Alison Ussery, Hafan o Oleuni (AU) Elin Hywel (Staff Cymorth) (EH) |

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r materion a drafodwyd: | Dechreuodd JW y cyfarfod drwy ddiolch i Stephen Chapman am ei flynyddoedd o wasanaeth fel y Cydgysylltydd Caethwasiaeth Fodern ac Atal Masnachu ac am weithio'n galed i wneud Cymru'n lle gwrthwynebus i dramgwyddwyr ac i BAWSO am weithio fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol a'i waith diflino i helpu goroeswyr.<br><br>Cafodd JW ei henwebu gan MH i fod yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau. Enwebwyd BAWSO gan JW yn Ysgrifenyddiaeth. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau.<br><br>Cafodd JV ei longyfarch gan JW ar ei rôl newydd.<br><br>Rhannodd JV sleidiau ar ddata a thueddiadau yn 2021, blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru a gweithgarwch ehangach, gan gynnwys camfanteisio anghyfreithlon ar lafur, sydd hefyd yn cael ei ychwanegu at ei gylch gwaith. Dywedodd JV y byddai'n cydweithio er mwyn gwneud cynnydd.<br><br>Diolchodd JW i JV am wneud y cyflwyniad. Gofynnodd JW i JV am wybodaeth ynghylch camfanteisio yn y farchnad lafur a'r diwydiannau sy'n peri pryder, gan gynnwys a oes unrhyw bryderon ynghylch camfanteisio yn y diwydiant Adeiladu ac arferion caffael.<br><br>Dywedodd JV fod Adeiladu yn sector o bwys o ran y maes caethwasiaeth fodern. Mae adroddiad sy'n edrych ar y risg o gaethwasiaeth fodern yn y sector adeiladu. Mae cosbrestru aelodau undebau, camddefnyddio contractau dim oriau a chwmnïau ymbarél hefyd yn broblem.<br>Nid caethwasiaeth fodern ffurfiol yw hyn ond mae cysylltiadau. Nid yw dioddefwyr caethwasiaeth fodern yn ei gydnabod fel hynny gan eu bod yn cael rhywfaint o dâl er ei fod yn is na'r isafswm cyflog. Mae JV yn cyfathrebu ag adrannau llywodraeth y DU ynghylch y bil cyflogaeth a chydweithwyr yn yr adran ac i rannu gwybodaeth ar gyfer diwygio.<br><br>Esboniodd RS y gwaith y mae BAWSO yn ei wneud i helpu goroeswyr caethwasiaeth fodern, gan gynnwys gwaith atgyfeirio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) a helpu oedolion sy'n ddioddefwyr caethwasiaeth fodern.<br><br>Roedd y gwasanaeth NRM yn llwyddiannus gyda Byddin yr Iachawdwriaeth i ddarparu gofal i ddioddefwyr gwrywaidd a benywaidd. Mae dioddefwyr yn cael cymorth ar sail |

| | |
|---|---|
| | anghenion unigol ar ôl asesiad, yn enwedig o ran adferiad iechyd meddwl a thrawma a rhywfaint o gamddefnyddio sylweddau ac adfer, ysgolion ar gyfer plant, datblygiad personol defnyddwyr gwasanaethau, a chymorth iaith a’u symud ymlaen. Mae’r lloches i ddynion yn lloches sydd â staff 24 awr. O ran defnyddwyr gwasanaeth ledled Cymru ym mhob awdurdod lleol, roedd 193 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi’u cefnogi yn ystod y 6 mis diwethaf ers mis Ebrill eleni. Dynion a menywod, mae 42% o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ddynion a 58% yn fenywod. Aeth RS drwy nifer yr atgyfeiriadau ledled Cymru a'u cenedligrwydd.<br><br>Yn yr adran sylwadau ar Teams, ysgrifennodd Elin Hywel:<br><br>"Rydw i yma yn cynrychioli Mabon ap Gwynfor AS, byddai gennym ddiddordeb mawr mewn unrhyw ddata penodol ar gyfer ein hetholaeth - Dwyfor Meirionnydd. Yn benodol, rydym ar hyn o bryd yn edrych ar y diffyg darpariaeth mewn ardaloedd gwledig oherwydd y pellter corfforol a'r diffyg trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau eraill o gael gafael ar gymorth a gwasanaethau a byddai'n dda cynnwys dealltwriaeth o effaith Masnachu Pobl, caethwasiaeth fodern a chamfanteisio ar lafur yn arbennig canfod a chanlyniadau yn yr ardal hon. Rwy’n cydnabod y gallai’r ffigurau fod yn fach mewn cymhariaeth.”<br><br>Diolchodd JW i RS a dywedodd ei bod wedi mynd i dŷ diogel flynyddoedd yn ôl a gweld yr heriau a'r gwaith caled sy'n cael ei wneud. Nodwyd y menywod yn y diwydiant rhyw a'r dynion yn y farchnad camfanteisio llafur.<br><br>Dywedodd RS y canfuwyd fod bron pob dioddefwr yn cael ei gamfanteisio ymhellach, fel camfanteisio rhywiol yn symud i gamfanteisio llafur i gamfanteisio troseddol. Mae priodas dan orfod hefyd yn cynnwys caethwasanaeth domestig.<br><br>Dywedodd JV ei bod yn anodd rhoi dioddefwyr mewn un categori ac mae gan bob unigolyn anghenion penodol. Dywedodd JV ei fod yn cydnabod bod dioddefwyr yn dod o wahanol gefndiroedd a phwysleisiodd y pwysigrwydd o gydweithio â'r trydydd sector. Nodwyd y cynnydd yn nifer y plant yn y system a phobl ifanc 16–17 oed ar fin dod yn oedolion.<br><br>Nododd JW ei hadroddiad ar Fasnachu Pobl a'r pwyslais ar ddioddefwyr sy’n blant. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd KAW ei bod wedi trosglwyddo i swyddfa'r cabinet ddwy flynedd yn ôl a thros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r grŵp darparu hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern wedi cael ei ail-sefydlu. Eistedd ar fwrdd y 3 P. Mae'r hyfforddiant bellach ar sail sector. Y sector sy'n darparu'r hyfforddiant. Nid yw bellach yn gyffredinol ac mae nawr yn fewnol. Dywedodd KAW oni bai ei fod yn cael ei wneud gan y sector ei fod yn teimlo fel problemau rhywun arall. Mae'n ymwneud â grymuso pobl. Mae'n ymwneud â chadarnhau hyfforddiant mewn adrannau a phobl yn dod yn berchen arno. Mae ymgyrch Brave the Bear yn ymwneud â chaethwasiaeth ddomestig. Yn ymwneud â'i ymgorffori mewn addysg a gwneud y llyfr yn brif ffrwd. Yn ymwneud â phawb yn gyfrifol am amddiffyn plant. Mae'n denu pwyntiau DPP ar gyfer athrawon, ac ati, sy'n canolbwyntio ar gael cymhwyster priodol mewn caethwasiaeth fodern. Cymhwyster academaidd. Erbyn hyn, mae gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant radd Meistr ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.<br><br>Diolchodd JW i KAW am ei gwaith i helpu goroeswyr caethwasiaeth fodern.<br><br>Dywedodd NP y gellid gwahodd myfyrwyr y cwrs Meistr i gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol ar ôl i'r cwrs ddechrau.<br><br>Cytunodd KAW ag NP ynghylch gwahodd myfyrwyr i gael safbwynt ymarferol i'w hastudiaethau academaidd.<br><br>Gofynnodd JV am wybodaeth am yr hyn y bydd y radd Meistr yn ei gwmpasu a strwythur yr astudiaethau.<br><br>Dywedodd KAW y bydd y radd Meistr yn anelu at lunio taflen gyda gwybodaeth am y cwrs, y siaradwyr a'r gwaith y mae'n ei wneud.<br><br>Dywedodd NP y dylid ehangu'r rhestr o wahoddedigion ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a chytunodd i weithio gyda KAW, JV a BAWSO.<br><br>Dywedodd JW fod Bil Caffael ar y gweill a phwysleisiodd yr angen i ddylanwadu arno cyn iddo gael ei basio ac ynghylch caffael moesegol. Yn enwedig gyda COP26 a lle maent yn prynu eu nwyddau a'r niwed. Edrych nid yn unig ar ddifrod i'r amgylchedd ond y bobl rydym yn prynu ganddynt. Cyfeiriodd JW at y slafdai a'r tanau yn India, gyda gweithwyr wedi'u cloi mewn adeiladau. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd KAW y gallai'r ffocws ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol yn 2022 fod ar ystyried y cwricwlwm ysgol yn 2022. Dylid canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chamfanteisio, ond nid oes sicrwydd a fydd hynny'n cael ei addysgu ledled Cymru mewn ysgolion a sut y bydd hynny'n edrych.<br>Dywedodd JW y dylai undebau llafur fod yn rhan o gyfarfodydd yn y dyfodol.<br>Cam i'w gymryd: Creu rhestr gyswllt newydd, gan gynnwys gwahodd pob undeb i'r cyfarfod nesaf. |

**Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

[Rhowch enw'r lobïwr/sefydliad/elusennau fel a ganlyn e.e.]

| Enw'r mudiad: | Enw'r grŵp: |
|---|---|
| • Cymorth i Ferched Cymru<br>• Cyngor ar Bopeth Conwy<br>• WEN Cymru<br>• Y Gwasanaeth Sifil Lleol<br>• NSPCC<br>• Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru<br>• BAWSO<br>• Sefydliad y Merched<br>• Cymru Ddiogelach<br>• Cynghorydd yr Esgobion ar gyfer yr Eglwys a Chymdeithas<br>• Hafan o Oleuni | |

**Datganiad Ariannol Blynyddol:**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Masnachu pobl |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 10/01/22 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Joyce Watson AS |
| **Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad:** | BAWSO |

# Datganiad Ariannol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau** | Dim nwyddau wedi'u prynu | £0.00 |
| **Buddion a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddion. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall.** | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |
| Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch.<br><br>Yr holl letygarwch y talwyd amdano [gan gynnwys enw'r grŵp/sefydliad]. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Costau** |
| | | £0.00 |
| | **Cyfanswm costau** | £0.00 |